**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

25 Medi 2023

Annwyl Julie,

Effaith cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch ei pholisïau sero net ar y broses o gyflawni ymrwymiadau newid hinsawdd Cymru

Byddwch yn ymwybodol bod Prif Weinidog y DU, yr wythnos diwethaf, wedi cyhoeddi newidiadau i bolisïau sero net amrywiol, y mae rhai ohonynt mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall a fydd y newidiadau a ganlyn yn effeithio ar y broses o gyflawni cyllidebau carbon a thargedau lleihau allyriadau carbon yng Nghymru, ac os felly, sut:

- Y bum mlynedd o oedi cyn cyflwyno gwaharddiad ar geir petrol a disel;
- Y penderfyniad i symud i ffwrdd oddi wrth y gwaith o gyflwyno safonau perfformiad ynni llymach ar gyfer y sector rhentu preifat;
- Y cyfnod o oedi cyn dirwyn y defnydd o foeleri nwy i ben.

Rwy'n sylweddoli y gallai'r gwaith o asesu effaith y newidiadau hyn fod yn ei gamau cychwynnol. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu dadansoddiad cychwynnol, gyda rhagor o wybodaeth i ddilyn unwaith y bydd dadansoddiad manwl wedi'i gwblhau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 20 Hydref 2023. Bydd hyn yn sicrhau bod yr Aelodau'n cael cyfle i godi unrhyw faterion gyda chi yn ystod sesiwn graffu weinidogol gyffredinol nesaf y Pwyllgor, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 26 Hydref.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.